| Rhif Cyfeirnod: UHB 455<br>Rhif Fersiwn: 1 | Dyddiad Adolygiad Nesaf: 25/06/2022<br>Rhif Cyfeirnod Ymddiriedaeth BILl Blaenorol: n/a |
|---|---|

# POLISI GWEITHLU ADDASADWY

**Datganiad Polisi**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y BIP) wedi ymrwymo i ddatblygu a chynnal trefniadau sy'n ei wneud yn lle gwych i weithio a dysgu, ac i ddarparu gwasanaeth o safon uchel. Rydym am greu sefydliad sy'n fwy ymatebol, effeithlon ac effeithiol all fodloni anghenion newidiol y gwasanaeth, cyflawni ein Strategaeth Siapio ein Lles i'r Dyfodol, ynghyd ag anghenion gofal ein staff.

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad ein gweithlu a'r sgiliau a'r profiad y maent yn meddu arnynt i ddarparu'r gofal gorau posib i'n cleifion. Yn sgil hyn, mae'r BIP yn cydnabod ei gyfrifoldeb i ddenu, cadw, dirprwyo a datblygu staff i fanteisio ar eu potensial a galluogi cynllunio olyniaeth er mwyn bodloni, er mwyn bodloni anghenion y gwasanaeth.

Mae gennym hanes o gefnogi aelodau staff unigol i weithio'n hyblyg. Wrth edrych ymlaen, bydd yr angen i weithio mewn ffyrdd mwy hyblyg ac ystwyth yn rhan o'r angen i drawsffurfio'r ddarpariaeth gwasanaeth, fydd yn cael ei lywio gan y sefydliad a gan geisiadau unigol.

**Ymrwymiad Polisi**

Mae'r BIP yn cydnabod bod ei gyflogeion yn hanfodol i'w lwyddiant ac wedi ymrwymo i sicrhau ein bod ni'n cadw'r wybodaeth, y sgiliau a profiad gwerthfawr ei weithlu drwy ddefnyddio sawl strategaeth i:

- Gefnogi cytbwysedd bywyd-gwaith positif ac iachus i staff tra'n sicrhau bod anghenion y gwasanaeth yn cael eu balansu gydag anghenion unigol
- 
- Sicrhau bod rhywun yn gofalu am ein gweithlu, a bod lles, iechyd a diogelwch ein cleifion a'n staff yn cael eu hystyried – bydd hyn yn cynnwys patrymau gwaith, cyfnodau ysbaid ac ymrwymiadau eraill y tu allan i'r gweithle
- Helpu cyflogeion sydd wedi cael eu diswyddo i ddod o hyd i gyflogaeth amgen a / neu gyfleoedd ail-hyfforddi, fydd yn eu galluogi nhw i barhau i gyfrannu'n bositif at y gwasanaeth

- Cydnabod bod cyflogeion hŷn yn dod â'r arbenigedd sydd wir ei angen o ran darparu gofal iechyd a sicrhau bod eu gwasanaeth yn cael ei gydnabod, a'u bod nhw, lle bo'n bosibl, yn cael parhau i weithio cyn hired ag sy'n bosibl drwy ymddeoliad hyblyg

- Sicrhau bod rheolwyr a staff yn ymwybodol o oblygiadau, hawliau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth y Polisi hwn a'i Weithdrefnau ategol, a bod y darpariaethau'n cael eu defnyddio mewn modd deg, cyson ac effeithiol.

Ni fyddwn yn gwahaniaethu, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar sail unrhyw rai o'r nodweddion a amddiffynnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 nac unrhyw nodwedd bersonol wrth weithredu'r polisi hwn.

**Gweithdrefnau Ategol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig**

Mae gweithio hyblyg yn galluogi sefydliad i rymuso ei bobl i weithio gyda'r mwyaf o hyblygrwydd posibl a'r lleiaf o gyfyngiadau er mwyn gwella perfformiad a gwneud eu gwaith gorau. Mae'n seiliedig ar y cysyniad bod gwaith yn weithgaredd yr ydym yn ei wneud, yn hytrach na lle rydyn ni'n mynd iddo. Er bod hyn yn cynnwys ffyrdd hyblyg o weithio, at ddibenion y Polisi hwn a'r gweithdrefnau ategol mae'n ehangach na hyn ac mae hefyd yn cynnwys:

- adleoli a chadw staff i gynnal sgiliau a phrofiad
- cefnogi staff pan mae angen iddynt gael amser i ffwrdd o'r gweithle
- defnyddio cyfnodau egwyl a seibiant yn briodol
- galluogi ein staff i weithio mewn modela gweithio llai traddodiadol, yn amodol ar anghenion y gwasanaeth

**Dyma'r dogfennau ategol eraill:**

Y Weithdrefn Gweithio Hyblyg
Canllawiau Gweithio Gartref / o Bell
Gweithdrefn Absenoldeb Rhiant
Gweithdrefn Ymddeol
Gweithdrefn Adleoli
Gweithdrefn Amseroedd Gweithio
Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol (staff nad ydynt yn feddygol)
Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol ar gyfer Staff ar y Raddfa Gyrfa a Meddygol
Gweithdrefn Gwobrau Ffyddlondeb
Polisi Gwyliau Arbennig GIG Cymru
Polisi Secondiad GIG Cymru
Polisi Newid Sefydliadol GIG Cymru

| | |
|---|---|
| Polisi Egwyl Cyflogaeth GIG Cymru | |
| **Sgôp**<br><br>Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff, er gallai fod meini prawf cymhwysedd penodol ar gyfer rhai o'r Gweithdrefnau ategol | |
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd** | Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd wedi'i gyflawni ar gyfer y polisi hwn a'r gweithdrefnau ategol. Cafwyd effaith bositif. |
| **Cymeradwywyd y Polisi gan** | Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni |
| **Grŵp gydag awdurdod i gymeradwyo gweithdrefnau sydd wedi'u hysgrifennu i egluro sut fydd y polisi hwn yn cael ei weithredu** | Is-grŵp Polisi Cyflogaeth |
| **Cyfarwyddwr Gweithredol neu Fwrdd Clinigol sy'n Atebol** | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| **<u>Ymwadiad</u>**<br>**Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi pasio, sicrhewch fod y fersiwn yr ydych yn ei defnyddio yn gyfredol un ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethu.** | |

| **Crynodeb o'r adolygiadau/diwygiadau** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif Fersiwn** | **Dyddiad y Cymeradwywyd yr Adolygiad** | **Dyddiad Cyhoeddi** | **Crynodeb o'r diwygiadau** |
| 1 | 25/06/2019 | 09/07/2019 | Polisi NEWYDD |